


carucymru
Gofalu am ein gwlad
Caring for Wales

# Canllawiau Caru Cymru: Binfrastructure

## Crynodeb

## 2023


Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

Mae Caru Cymru yn gydweithrediaeth rhwng pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru a Phrifysgol Caerdydd i gyflawni ein gweledigaeth ar y cyd o Gymru hardd y mae pawb yn gofalu amdani ac yn ei mwynhau. Gan ychwanegu at flynyddoedd lawer o brofiad yn gweithio mewn cymunedau ac ysgolion a'n harbenigedd mewn newid ymddygiad, mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi datblygu dull unigryw o fynd i'r afael â materion ansawdd amgylcheddol lleol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Yn lleol, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu atebion yn eu hardaloedd, gan ymgysylltu â grwpiau gwirfoddol, ysgolion a busnesau i feithrin balchder a pherchnogaeth o'r gofod ar eu stepen drws. Yn genedlaethol, rydym yn gobeithio mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau i gydweithredu ar y materion mwyaf parhaus trwy ddatblygu negeseuon ac ymyriadau safonol, yn seiliedig ar wybodaeth gadarnhaol a defnyddiol, o dipio anghfreithlon i leihau plastig. Ein nod yw cynorthwyo ein partneriaid i greu amgylchedd sydd yn galluogi ar draws Cymru i annog pobl yn genedlaethol i 'wneud y peth iawn'.

*** Mae'r canllawiau hyn wedi eu cynllunio i gefnogi deunyddiau'r prosiect ac maent yn rhoi cyngor i awdurdodau o ran cael dull mwy cydlynus ar gyfer biniau a seilwaith arall fel ei fod yn fwy hygyrch a thryloyw ar gyfer ei ledaenu'n gyhoeddus.**

**Mae'r pwyntiau bwled isod yn crynhoi prif ganfyddiadau'r adroddiad mewn perthynas â dyluniad da ar gyfer biniau.**

## Caru Cymru – Bin iawn, lle iawn

1. Nid yw biniau ar eu pen eu hunain yn lleihau sbwriel
2. Ond, mae prinder biniau yn esgus cyffredin a ddefnyddir gan droseddwyr dros daflu sbwriel
3. Mae'n rhaid i bob man cyhoeddus lle mae llawer o bobl yn mynd gael biniau a darpariaeth ailgylchu lle y bo'n bosibl (er enghraifft, y stryd fawr neu ganolfannau siopa)
4. Ond rydym yn rhybuddio rhag gosod biniau ym mhobman ar gyfer pob achlysur – yn bennaf am fod hyn yn feichus ac yn gostus i awdurdodau lleol ei reoli
5. Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod biniau mewn cilfannau yn denu sbwriel ac mae llawer o awdurdodau lleol wedi symud biniau o'r lleoliadau hyn, ond mae'r astudiaethau yn amhendant, ac mae'n dibynnu'n fawr ar y cyd-destun ac ni ddylid ei ddefnyddio fel rheol gyffredinol.
6. Gallai symud biniau i'w hatal rhag cael eu camddefnyddio wasgaru neu waethygu'r broblem.
7. Dylai awdurdodau lleol wneud ymdrech i ddod i adnabod eu biniau a chael dealltwriaeth dda o'r ffordd y maent yn cael eu defnyddio (neu a ydynt) trwy archwiliadau biniau rheolaidd a strategaeth finiau gyffredin a fframwaith gwneud penderfyniadau.
8. Dylid datblygu'r polisïau hyn a'u rhannu gydag aelodau'r Cyngor sydd yn aml yn ffynhonnell ceisiadau am finiau.
9. Dylid datblygu'r polisïau hyn a'u rhannu gydag aelodau'r Cyngor sydd yn aml yn ffynhonnell ceisiadau am finiau.
10. Mae gwella amlygrwydd biniau'n cynyddu eu defnydd. Ni ddylid eu dylunio i gyd-fynd â'u hamgylchedd ond i sefyll allan cymaint â phosibl.
11. Yn ogystal â bod yn ffordd o waredu gwastraff, mae biniau hefyd yn gyfle da ar gyfer negeseuon a chodi ymwybyddiaeth.
12. Mae llawer o finiau gwahanol yn bodoli ac er eu bod yn llwyddiannus yn lleihau taflu sbwriel, er mwyn cynnal hyn, mae angen eu diwygio'n rheolaidd i gynnal yr elfen newydd. Mor aml a phob pythefnos o bosibl yn achos, er enghraifft, biniau pleidleisio.
13. Mae arloesedd o ran dylunio biniau yn cynyddu ac yn dod yn fwy cyffredin. Er y gall costau cyfalaf y rhain fod yn ddrud, gallant gynyddu costau effeithlonrwydd yn yr hirdymor.